# Unedau

| Teitl yr Uned: | Deall y Sector Hamdden Egnïol a Dysgu |
|---|---|
| Rhif yr Uned: | Y/600/1734 |
| Lefel: | 2 |
| Oriau Dysgu dan Arweiniad: | 15 |
| Credydau: | 2 |

**Manylion yr uned:** Nod yr uned hon yw datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth dysgwyr o'r sector Hamdden Egnïol a Dysgu, ei nodweddion allweddol a'r cyfleoedd cyflogaeth a gyrfa yn y sector.

| **Deilliant Dysgu**<br>**Bydd y dysgwr yn:** | | **Maen Prawf Asesu**<br>**Gall y dysgwr:** | |
|---|---|---|---|
| 1 | Gwybod am nodweddion allweddol y sector Hamdden Egnïol a Dysgu | 1.1 | Disgrifio maint a chwmpas y sector Hamdden Egnïol a Dysgu |
| | | 1.2 | Disgrifio cyfraniad y sector Hamdden Egnïol a Dysgu i gymdeithas |
| | | 1.3 | Amlinellu rôl y Cyngor Sgiliau Sector o ran y sector Hamdden Egnïol a Dysgu |
| | | 1.4 | Nodi'r prif is-sectorau yn y sector Hamdden Egnïol a Dysgu |
| 2 | Gwybod am nodweddion allweddol yr is-sector Hamdden Egnïol a Dysgu y mae'n gweithio ynddo | 2.1 | Disgrifio cyfansoddiad ei is-sector o ran sefydliadau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol |
| | | 2.2 | Nodi maint ei is-sector o ran cyflogaeth a chyfranogiad |
| | | 2.3 | Amlinellu'r egwyddorion hanfodol, y gwerthoedd neu'r codau ymarfer yn ei is-sector |
| | | 2.4 | Nodi rolau sefydliadau allweddol yn ei is-sector, gan gynnwys unrhyw gyrff cynrychioliadol a rheoleiddiol, undebau llafur a chymdeithasau llafur |
| 3 | Gwybod am gyfleoedd cyflogaeth a gyrfa yn yr is-sector Hamdden Egnïol a Dysgu y mae'n gweithio ynddo | 3.1 | Nodi ffynonellau gwybodaeth am gynnydd gyrfa, hyfforddiant ac addysg |
| | | 3.2 | Nodi'r prif rolau swyddi yn ei is-sector |
| | | 3.3 | Nodi llwybrau gyrfa posibl yn ei is-sector |
| | | 3.4 | Nodi'r ffactorau allweddol sy'n helpu pobl i wneud cynnydd yn eu gyrfaoedd yn yr is-sector |
| | | 3.5 | Amlinellu sut y gall pobl drosglwyddo o un is-sector i'r llall |

| Teitl yr Uned: | Deall Hawliau a Chyfrifoldebau Cyflogaeth |
|---|---|
| Rhif yr Uned: | J/600/0840 |
| Lefel: | 2 |
| Oriau Dysgu dan Arweiniad: | 15 |
| Credydau: | 2 |

**Manylion yr uned:** Nod yr uned hon yw datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth y dysgwyr o hawliau a chyfrifoldebau cyflogaeth o dan y gyfraith a dogfennau sy'n berthnasol i'r gyflogaeth.

| Deilliant Dysgu<br>Bydd y dysgwr yn: | | Maen Prawf Asesu<br>Gall y dysgwr: | |
|---|---|---|---|
| 1 | Gwybod ei hawliau a'i gyfrifoldebau cyflogaeth o dan y gyfraith | 1.1 | Disgrifio ei hawliau a'i gyfrifoldebau o ran:<br>• Contractau cyflogaeth<br>• Deddfwriaeth gwrth-wahaniaethu<br>• Oriau gwaith a'r hawl i gael gwyliau<br>• Absenoldeb oherwydd salwch a thâl salwch<br>• Diogelu data<br>• Iechyd a diogelwch |
| | | 1.2 | Amlinellu hawliau a chyfrifoldebau'r cyflogwr |
| | | 1.3 | Disgrifio'r gofynion iechyd a diogelwch cyfreithiol sy'n berthnasol i'w sefydliad |
| | | 1.4 | Amlinellu goblygiadau gofynion cyfreithiol o ran iechyd a diogelwch ar gyfer ei rôl ei hun |
| 2 | Deall dogfennau sy'n berthnasol i'w gyflogaeth | 2.1 | Egluro prif delerau ac amodau contract cyflogaeth |
| | | 2.2 | Amlinellu cynnwys a diben swydd-ddisgrifiad |
| | | 2.3 | Disgrifio'r mathau o wybodaeth a gedwir ar gofnodion personél |
| | | 2.4 | Disgrifio sut i ddiweddaru gwybodaeth a gedwir ar gofnodion personél |
| | | 2.5 | Dehongli'r wybodaeth a ddangosir ar slip cyflog neu ddatganiad enillion arall |
| 3 | Gwybod gweithdrefnau cyflogaeth allweddol yn y gwaith | 3.1 | Disgrifio'r gweithdrefnau i'w dilyn os oes angen i rywun gymryd amser i ffwrdd |
| | | 3.2 | Disgrifio'r gweithdrefnau i'w dilyn os oes cwyn |
| | | 3.3 | Disgrifio'r gweithdrefnau i'w dilyn os oes tystiolaeth o wahaniaethu neu fwlio |
| | | 3.4 | Nodi ffynonellau gwybodaeth a chyngor ar faterion cyflogaeth:<br>• Yn ei sefydliad<br>• Y tu allan i'w sefydliad |

| | |
|---|---|
| **Teitl yr Uned:** | Deall y Sefydliad sy'n Cyflogi |
| **Rhif yr Uned:** | D/600/1735 |
| **Lefel:** | 2 |
| **Oriau Dysgu dan Arweiniad:** | 15 |
| **Credydau:** | 2 |

**Manylion yr uned:** Nod yr uned hon yw datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth dysgwyr o strwythur, nodau ac amcanion allweddol eu sefydliad. Bydd dysgwyr yn deall y cyfleoedd i gael mynediad i'r sefydliad, a'r cyfleoedd datblygiad proffesiynol a dilyniant yn y sefydliad.

| **Deilliant Dysgu**<br>**Bydd y dysgwr yn:** | | **Maen Prawf Asesu**<br>**Gall y dysgwr:** | |
|---|---|---|---|
| 1 | Gwybod am strwythur ei sefydliad | 1.1 | Nodi'r prif swyddogaethau yn ei sefydliad |
| | | 1.2 | Disgrifio sut mae'r prif swyddogaethau yn ei sefydliad yn cael eu staffio a'u trefnu |
| | | 1.3 | Disgrifio llinellau adrodd yn ei sefydliad |
| 2 | Gwybod am nodau ac amcanion allweddol ei sefydliad | 2.1 | Nodi nodau allweddol ei sefydliad (er enghraifft, cenhadaeth, nodau craidd a gwerthoedd) |
| | | 2.2 | Nodi targedau ei sefydliad |
| 3 | Deall ei gyfraniad ei hun at nodau ac amcanion y sefydliad | 3.1 | Nodi amcanion ei swydd |
| | | 3.2 | Disgrifio sut mae amcanion ei swydd yn cyfrannu at nodau allweddol y sefydliad |
| | | 3.3 | Disgrifio sut mae ei berfformiad ei hun yn cael ei werthuso a'i ddatblygu |
| | | 3.4 | Disgrifio sut y gall gynorthwyo i werthuso a datblygu ei waith ei hun |
| 4 | Gwybod am y cyfleoedd i gael mynediad i'r sefydliad, a'r cyfleoedd datblygiad proffesiynol a dilyniant yn y sefydliad | 4.1 | Amlinellu pwysigrwydd datblygiad proffesiynol parhaus |
| | | 4.2 | Disgrifio prosesau cynefino'r sefydliad |
| | | 4.3 | Disgrifio prosesau hyfforddi a datblygu'r sefydliad |
| | | 4.4 | Nodi'r cyfleoedd a'r gofynion ar gyfer ei ddilyniant gyrfa yn y sefydliad |

